ATODLEN 3

TROSEDDAU PENODEDIG

Troseddau eraill

7.—(1) Trosedd yn groes i adran 170 o Ddeddf Rheoli Tollau Tramor a Chartref 1979(**1**) mewn perthynas â nwyddau y gwaherddir eu mewnforio o dan adran 42 o Ddeddf Cydgrynhoi Tollau 1876(**2**) (gwaharddiadau a chyfyngiadau) pan oedd y nwyddau gwaharddedig yn cynnwys ffotograffau anweddus o blentyn.

(2) Trosedd yn rhinwedd—

(a) adran 72 o Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003 (troseddau y tu allan i'r Deyrnas Unedig)(**3**), neu

(b) adran 16B o Ddeddf Cyfraith Trosedd (Cydgrynhoi) (Yr Alban) 1995(**4**) (cyflawni troseddau rhywiol penodol y tu allan i'r Deyrnas Unedig).

(3) Trosedd yn groes i adran 32(3) o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1969 (cadw pobl sy'n absennol yn gaeth).Trosedd yn groes i erthygl 10(2) (trosedd sy'n ymwneud â dianc) neu erthygl 11(1) (trosedd rhwystro bwriadol) o Orchymyn Deddf Gwrandawiadau Plant (Yr Alban) 2011 (Darpariaethau Canlyniadol, Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) 2013(**5**)

(**1**) 1979 p. 2. Diwygiwyd adran 170 gan adran 114 o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 (p. 60), O.S. 1996/2686, adran 75 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008 (p. 4) a pharagraff 8 o Atodlen 17 iddi, adran 111 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 (p. 12), O.S. 2015/664, adran 12 o Ddeddf Cyllid 1988 (p. 39), O.S. 2004/702 (G.I. 3), O.S. 2005/1966 (G.I. 16) ac adran 3 o Ddeddf Cyllid (Rhif 2) 1992 (p. 48) a pharagraff 7 o Atodlen 2 iddi.

(**2**) 1876 p. 36. Diwygiwyd adran 42 gan Ddeddf Cyfraith Statud (Diddymiadau) 1993 (p. 50) a Deddf Cyfraith Statud (Diddymiadau) 2008 (p. 12).

(**3**) Diddymwyd adran 72 o ran Gogledd Iwerddon gan erthygl 83 o Orchymyn 2008 ac Atodlen 3 iddo, yn ddarostyngedig i arbedion a bennir yn y Gorchymyn hwnnw.

(**4**) 1995 p. 39. Diddymwyd adran 16B gan adran 61 o Ddeddf Troseddau Rhywiol (Yr Alban) 2009 (dsa 9) ac Atodlen 6 iddi.

(**5**) O.S. 2013/1465.